OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 314 (Cy. 103)

# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mawrth 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr, ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 30 Mawrth 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

**2.** Yn Rhan 2 o Atodlen 2 (dyfroedd wyneb yng Nghymru) i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013(**3**) ar ôl "Aberdyfi" mewnosoder "Aberdyfi Rural Beach".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2016

(**1**) *Gweler*O.S. 2003/2901 ar gyfer y dynodiad a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 28 o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw bellach wedi ei roi i Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**3**) O.S. 2013/1675; fel y'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2014/1067 (Cy. 106).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 (dyfroedd wyneb yng Nghymru) i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau"), sy'n rhestru'r dyfroedd a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel dyfroedd ymdrochi yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Traeth Gwledig Aberdyfi at y rhestr o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yn y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid oes unrhyw asesiad effaith wedi ei lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw newid i bolisïau, nac unrhyw effaith ar fusnesau na'r sector gwirfoddol yn cael ei rhagweld.